Medi 2004

Brîff

Friends of the Earth Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

Mae newid hinsawdd yn rhywbeth go iawn, cefnogwch ynni gwynt

Mae newid hinsawdd yn rhywbeth GO IAWN

Caiff newid hinsawdd ei gydnabod yn eang erbyn hyn fel y bygythiad mwyaf sy'n ein hwynebu y ganrif hon. Mae'r dystiolaeth wyddonol gynyddol yn dangos bod yn rhaid gweithredu ar frys os ydym am osgoi canlyniadau trychinebus.

Er enghraifft, dywedodd prif ymgynghorydd gwyddonol Llywodraeth y DG bod yna'n awr fwy o garbon deuocsid, y prif nwy 'tŷ gwydr', yn yr atmosffer nag a fu am y 55 miliwn o flynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn ddigon i doddi'r holl ia ar y blaned, ac i foddi dinasoedd arfordirol megis Llundain ac Efrog Newydd (ac yn ôl pob tebyg, Caerdydd).

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae newid i ffynonellau ynni adnewyddadwy glân, megis gwynt, solar, dŵr a biodanwydd, yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem newid hinsawdd. Mae angen i ni ddangos ein cefnogaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy i'r bobl sy'n ein cynrychioli - ein Haelodau Cynulliad yng Nghymru, ein Haelodau Seneddol yn y DG, a'n Haelodau Senedd Ewrop. Rydym yn y mwyafrif yn cefnogi ynni adnewyddadwy, ond rydym hefyd yn fwyafrif tawel sydd angen dechrau lleisio ein barn, yn hytrach na chael ein boddi gan grŵp bychan o wrthwynebwyr uchel eu cloch.

Beth sy'n digwydd nawr?

Un o'r prif ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yw gwynt. Mae fferm wynt ar y môr a gynigwyd ym Mae Abertawe, Scarweather Sands, wedi cael cymeradwyaeth dros dro gan bwyllgor penderfyniadau cynllunio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n debygol y caiff ei drafod gan yr holl Aelodau Cynulliad yn gynnar ym mis Hydref. Rydym angen i chi ddangos eich cefnogaeth i'r cais fferm wynt bwysig hwn.

Gwybodaeth am y pwnc

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod targed bod10% o drydan a gynhyrchir yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru'n cefnogi'r targed hwn a rhagwelwn ddyblu nifer y tyrbinau gwynt yng Nghymru fel cyfraniad tuag ato. Byddai methu cyrraedd y targed hwn yn cryfhau'r achos dros adeiladu gorsafoedd niwclear newydd gan fod y rhain yn gyfrifol am lawer llai o allyriant nwyon 'tŷ gwydr' na gorsafoedd tanwydd ffosil. Daeth pôl piniwn, a gynhaliwyd gan Market Research Wales yn 2002 ar gyfer Cyfeillion y Ddaear Cymru, i'r casgliad y byddai'n well gan 87% o'r ymatebwyr weld ffermydd gwynt ar y môr na gorsafoedd niwclear. Hefyd

---

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol, sy'n gwneud bywyd yn well i bobl

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- **yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru**
- **yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG**
- **yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir**
- **yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru**
- **yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm**

I ymuno neu wneud cyfraniad, ffoniwch ni ar 0800 581 051

Cyfeillion y Ddaear Cymru, 33 Oriel Arcêd y Castell, Caerdydd, CF10 1BY
Ffôn 029 2022 9577 Ffacs 029 2022 8775 Ebost cymru@foe.co.uk Gwefan www.cyddcymru.co.uk

Cyfeillion y Ddaear Cyfyngedig Cofrestrwyd yn Llundain Rhif 1012357, Swyddfa Gofrestredig 26-28 Underwood Street Llundain N1 7JQ
Argraffwyd ar bapur wedi ei wneud yn llwyr o wastraff defnyddwyr

dywedodd 71% o'r ymatebwyr y byddent yn cefnogi dyblu'r tyrbinau gwynt ar y tir yng Nghymru.

Beth yw'r manteision?

Nid yw ynni gwynt yn llygru ac mae'n ddiddiwedd. Nid oes effeithiau niweidiol i iechyd, yn wahanol i danwydd ffosil sy'n difrodi'r amgylchedd naturiol, yn ychwanegu at newid hinsawdd, yn achosi afiechyd ac yn lladd pobl. Dengys polau piniwn bod y mwyafrif o bobl yn gweld eu heffaith weledol yn rhywbeth cadarnhaol yn hytrach na negyddol.

Byrstio swigod gwrth-wynt

Mae cost ynni gwynt wedi gostwng mewn blynyddoedd diweddar ac mae nawr yn ymylu at fod yn gystadleuol gyda ffynonellau ynni confensiynol. Mae cost niwed amgylcheddol a iechyd gan danwydd ffosil ac ynni niwclear yn anferthol ac mae'r cymorthdaliadau ar gyfer y rhain yn llawer uwch nag ydynt ar gyfer ynni gwynt. Nid yw tyrbinau gwynt yn cynhyrchu trydan trwy'r amser ond maent yn cyfrannu fwyaf pan fo'r galw ar ei uchaf yn ystod y gaeaf. Mae mathau eraill o ynni, megis niwclear, hefyd yn dioddef o 'ddiffoddiadau' pan fydd yn rhaid eu diffodd yn annisgwyl. Rhaid darparu pŵer wrth gefn i bob math o ddulliau cynhyrchu trydan, nid dim ond ar gyfer ffynhonnell ysbeidiol megis gwynt. Ni fydd hyn yn dod yn broblem nes y bydd tua 20% o drydan yn dod gan wynt, ac nid ydym yn agos at y ffigur hwnnw ar hyn o bryd. Nid yw sŵn yn broblem mwyach. Os y'i lleolir oddi wrth safleoedd nythu a llwybrau ymfudo prin iawn yw'r effaith a gaiff ffermydd gwynt at adar. Y darlun mawr yw y bydd newid hinsawdd yn dinistrio llawer mwy o boblogaethau adar, drwy ddinistrio eu cynefinoedd.

Beth sydd wedi digwydd hyd yma?

Aeth cynnig Scarweather Sands drwy'r cyfnod arferol o ymchwiliad cyhoeddus yn cynnwys y gymuned leol, arbenigwyr, a grwpiau megis Cyfeillion y Ddaear Cymru. Yna lluniwyd adroddiad ar y cynnig ar gyfer pwyllgor gwneud penderfyniadau'r Cynulliad gan yr arolygydd ymchwiliadau cyhoeddus.

Yn ei adroddiad ar Scarweather Sands daeth yr arolygydd ymchwiliadau cyhoeddus i'r casgliad y byddai'r cynllun yn 'cyfrannu'n sylweddol at leihad mewn nwyon tŷ gwydr'.

Er honiadau uchel gan ychydig y byddai'r fferm wynt hon yn achosi niwed sylweddol i'r economi leol, daeth yr arolygydd i gasgliad gwahanol gan ddatgan "y byddai manteision i'r economi leol o ran gwaith newydd a'r defnydd o'r gwasanaethau presennol".

Ni chefnogodd yr arolygydd chwaith y rhagamcanion tywyll ynglŷn â niwed i'r diwydiant twristiaeth lleol. Daeth i'r casgliad nad oedd hi'n bosib gwneud daroganau pendant gan fod y dystiolaeth yn gwrthddweud ei hun. Awgryma ymchwil na fyddai twristiaeth yn dioddef. Daeth arolwg barn gan Greenpeace ymhlith twristiaid ym Mhorthcawl yr haf diwethaf i'r casgliad y byddai tri ar ddeg y cant yn fwy tebygol o ddychwelyd o'i gymharu â'r dim ond 4 y cant a fyddai'n llai tebygol gyda'r fferm wynt ar y môr.

Fodd bynnag, argymhellodd yr arolygydd y cynllun ar gyfer ei wrthod ar sail effaith weledol. Nid yw Cyfeillion y Ddaear Cymru'n cytuno gydag argymhelliad yr arolygydd y byddai'r effaith weledol, yn arbennig o'r clwb golff, yn rheswm digonol i wrthod y cais. Dylai manteision amgylcheddol ac economaidd sylweddol a nodwyd gan yr arolygydd orbwyso'r pryder hwn. Mae ymateb pobl i effaith weledol tyrbinau gwynt yn fater goddrychol gyda pholau piniwn annibynnol yn dangos yn gyson graddfa gymeradwyaeth o tua thri i un.

Ein neges heddiw

Dylai'r bygythiad gwirioneddol y mae newid hinsawdd yn ei beri i ddyfodol ein plant sicrhau nad yw prosiectau sy'n cynnig toriadau sylweddol mewn allyriant nwyon tŷ gwydr yn cael eu rhwystro oherwydd pryderon am forluniau gan ychydig. Byddai fferm wynt Scarweather Sands yn gwneud cyfraniad pwysig i nod Cymru o gynhyrchu 10% o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010 ac i leihau allyriant nwyon tŷ gwydr. Byddai caniatáu'r cynllun yn anfon neges bwysig i gwmnïau ynni adnewyddadwy bod croeso iddynt yng Nghymru.

Dylid llongyfarch pwyllgor penderfyniadau cynllunio'r Cynulliad ar ei benderfyniad i argymell cymeradwyo fferm wynt Scarweather Sands. Gofynnwn i chi gefnogi eu penderfyniad.